

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Orffennaf 2017

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, Prys Ellis, Guto G Jones, John D Jones, Einion Edwards, Trystan Humphreys, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Ieuan Jones, Ffion Williams, Peter Lewis.
Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 16eg Fai 2017

Materion yn Codi

[1] Yr Heddlu

Dywedodd y clerc nad oedd PCSO Ceri Evans yn medru bod yn bresennol a'i bod wedi derbyn yr adroddiad canlynol ganddi.

[a] Rhywun wedi lladrata beic cwad o fferm yn y gymuned a hefyd dau ladrad o foduron lleol.

[b] Mae'r heddlu yn parhau i gadw llygad ar y triogl EVO, mae gwybodaeth am droseddwy'r ar gael ar wefan yr heddlu.

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Nodwyd ateb gan Heledd Jones Cyfoeth Naturiol Cymru yn amlinellu ei bod y mynd i ymweld â'r safle a hefyd trafod y mater gyda Chyngor BS Conwy.

[1.2] Cae Llwyd

Y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r canlynol;

[a] Angen arwydd "Dim Cwn" ar y giât gyferbyn a'r Tai Cyngor

[b] Arwyddion wedi eu gosod ar yr ochr mewn yn gwynebu'r cae yn hytrach na'r ochr allan

[c] Y matiau du o dan y swings angen sylw.

[1.3] Diffibriliwr/Pentrellyncymer

[a] Eglurodd Einion Edwards bod digon o arian wedi ei gasglu ar gyfer diffibriliwr yn y pentre' a bod bwriad i drosglwyddo 'r arian dros ben i gyfrif y Cyngor Cymuned dros dro, ar gyfer costau gosod y peiriant ayb.

[b] Cytunodd Prys Ellis i wneud ymholiadau yng Nghefn Brith ar gyfer diffibriliwr

[1.4] Llwybr Maes Aled

Polyn Concrid – Nodwyd y rhif canlynol 26302 ar gyfer symud y polyn.

Y Brif Agenda

[1.5] Cofrestr Diddordebau

Cytunodd pawb i gwblhau ffurflen yn datgan diddordebau ar gyfer Cyngorwyr Cymuned.

[1.6] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Ger y Maelor

Y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â diogelwch y coed yn y ddau leoliad uchod.

[1.7] Goleuadau Traffig yr A5 y Ddwryd

Mynegwyd pryder bod y goleuadau yn gam arweiniol i fodurwyr pan yn troi am y Bala o'r briffordd. Y clerch i geisio sylwadau gan yr Adran Briffyrdd.

[1.8] Torri Gwair ar Ochrau Ffyrdd

Deallwyd bod safon y gwaith yn siomedig yn arbennig ar ffyrdd yn Cwmpenanner a Bryn Dedwydd Cefn Brith. Y clerch i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

[1.9] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Llythyr o ddiolch oddiwrth Adran yr Urdd am gyfraniad gan y Cyngor.

[b] Ymgynghoriad -Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru

[c] Llywodraeth Cymru – Canllaw'r Cynghorydd Da

Cadeirydd _____